# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gymraeg Sant Baruc

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae disgyblion a staff yn parchu ei gilydd yn dda. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol ac yn sicrhau bod disgyblion yn hapus yn yr ysgol, yn ymddwyn yn dda ac yn gwneud eu gorau. Maent yn teimlo'n ddiogel yno, ac yn gwybod bod rhywun yno y gallant siarad â nhw pan maent yn gofidio am rywbeth. Mae gan ddisgyblion feddwl uchel o'r pennaeth, sy'n arwain yr ysgol yn effeithiol ac yn disgwyl iddynt wneud eu gorau er mwyn llwyddo hyd orau eu gallu.

Mae athrawon yn datblygu medrau disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, eu medrau rhifedd a'u cymhwysedd digidol. Mae hyn yn cynnwys y rheini y mae tlodi yn effeithio arnynt a'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae athrawon yn deall beth maent am i ddisgyblion ei ddysgu, ac maent wedi cynllunio cwricwlwm diddorol, eang a phwrpasol sy'n eu galluogi i wneud hyn yn effeithiol. Mae sesiynau dysgu yn ddiddorol ac yn annog disgyblion i ganolbwyntio a llwyddo yn eu tasgau. Ym mwyafrif y dosbarthiadau, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n adeiladu ar waith blaenorol disgyblion ac yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da. Ond yn y lleiafrif o ddosbarthiadau, nid yw athrawon yn disgwyl digon gan y disgyblion, sy'n golygu nad ydynt bob amser yn gwneud y cynnydd gorau posibl. Gan weithio gyda rhieni ac eraill, mae staff yn rhoi cymorth effeithiol i ddisgyblion ag ADY. Maent yn eu hasesu'n gyson i sicrhau eu bod yn paratoi'r gweithgareddau gorau ar eu cyfer.

Er bod gan yr ysgol ystod o bwyllgorau plant, mae staff yn arwain gormod ohonynt sy'n golygu nad yw medrau arwain disgyblion wedi datblygu digon. Mae trefniadau i wneud yn siŵr bod disgyblion yn trosglwyddo'n hyderus i'r ysgol uwchradd pan ddaw'r amser iddynt wneud hynny yn llwyddiannus iawn.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1. Parhau i fireinio'r addysgu i sicrhau bod disgwyliadau'r holl athrawon yn gyson uchel

A2. Datblygu rolau arwain annibynnol disgyblion

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/12/2025